ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP SWYDDOGION TECHNEGOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd am 10.30am, Dydd Mercher, 25 Ionawr 2006 yn yr Ystafell Gynadledda, Canolfan Ddinesig Penllergaer.

Yn Bresennol

Geoff White (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Owain Lewis	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Vaughan Thomas	CBS Castell-nedd Port Talbot
Carol A Williams	CS Benfro / APCASB
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Neil Bateman	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Hugh Towns	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Phil Williams	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Roy Probert	Dinas a Sir Abertawe
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (De-orllewin Cymru)
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Mark Watson	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Adrian Jones	Llywodraeth Cynulliad Cymru (Uned Strategaeth Gwastraff)

1. **Ymddiheuriadau**

Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Philip Marks	CYLCH
Karen Maddock-Jones	CCW
Graham Bishop	Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont

2. **Cofnodion y Cyfarfod ar y Cyd rhwng y Grŵp Technegol a Fforwm yr Aelodau ar 18 Hydref '05**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

Eitem 5: Y Protocol ar gyfer Ymchwil Fapio GIS – Nododd SM fod y Protocol drafft wedi cael ei lunio ond bod hepgor data ynglŷn ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi arwain at oedi cyn ei ddosbarthu.

Mae RPS wedi diweddaru'r ymchwil a bydd y tri Chydlynydd Rhanbarthol, ynghyd â phob awdurdod lleol ar draws y gogledd, yn derbyn cyfres o fapiau a DVD diwygiedig cyn bo hir. **Gweithredu**: SM i ddosbarthu'r Protocol pan fydd hynny'n briodol.

3. **Adroddiad ar Wastraff Peryglus – Y Diweddaraf ynglŷn â'i Gymeradwyo**

Dyma'r hyn a nododd y swyddogion o ran cymeradwyo'r 'Adroddiad ar Wastraff Peryglus':

APC Bannau Brycheiniog:	Wedi'i gymeradwyo (Tachwedd 2005)
CBS Pen-y-bont ar Ogwr:	I'w gadarnhau. **Gweithredu**: SB.
CS Gaerfyrddin:	I'w gadarnhau. **Gweithredu**: HT
CS Ceredigion:	I'w gadarnhau. **Gweithredu**: GD.
Dinas a Sir Abertawe:	Wedi'i gymeradwyo (Tachwedd 2005)
CBS Castell-nedd PT:	Wedi gymeradwyo (Tachwedd 2005)
CS Benfro:	Wedi'i gymeradwyo (Tachwedd 2005)
APC Arfordir Sir Benfro:	Wedi'i gymeradwyo (Tachwedd 2005)

Gweithredu: CM i hysbysu LlCC ar ôl cymeradwyo'r Adroddiad yn llawn.

4. **<u>Contract y Grŵp Gwastraff Rhanbarthol</u>**

- **Adroddiad Monitro Blynyddol 2006** [*Data gan Awdurdodau Lleol*]

Wrth gyfeirio at ddrafft cyntaf pennawd yr AMB a ddosbarthwyd, sy'n ymwneud â chyfleusterau'r rhanbarth, rhoddodd CM grynodeb byr o'r cynnwys gan nodi bod y pennawd yn dilyn yr un fformat ag AMB 2005.

Cadarnhaodd CM fod cryn dipyn o'r data a gyflwynwyd yn y drafft presennol yn deillio o'r papurau a ddosbarthwyd yn dilyn cyfarfod Grŵp Rheolwyr Gwastraff De-orllewin Cymru. Felly, gofynnwyd i swyddogion wirio'r wybodaeth yn y gwahanol dablau. **Gweithredu**: Pob Swyddog ALl.

Wrth amlygu'r bylchau sy'n parhau yn y wybodaeth, cafodd swyddogion awdurdodau lleol eu hatgoffa unwaith eto am y data sy'n ofynnol ar bob awdurdod cydrannol a gofynnwyd iddynt ddarparu'r wybodaeth cyn gynted â phosib. **Cytunwyd** y dylai swyddogion awdurdodau lleol gyflawni'r gwiriadau angenrheidiol a darparu'r holl wybodaeth ddyledus erbyn dydd Gwener, 3 Chwefror. **Gweithredu**: Pob Swyddog ALl.

Adran 4.3 Cyfleusterau – Presennol, sy'n Cael eu Datblygu ac sydd yn yr Arfaeth: Awgrymwyd y gellid gwella'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y gwahanol ffigurau trwy ddarparu manylion gan gynnwys 'Rhifau Awdurdodi' a chyfeiriadau. **Gweithredu**: AA i ddarparu'r data. **Gweithredu**: CM i wneud cais i'r AA caniatáu mynd at y data.

Cytunwyd bod angen egluro diffiniad '*Arfaethedig'*. **Gweithredu**: CM i geisio diffiniad sy'n gyson â'r Awdurdodau Arweiniol eraill.

Cytunwyd hefyd bod angen dyddiad cau ar gyfer yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr AMB. **Gweithredu**: CM i geisio cytundeb â'r Awdurdodau Arweiniol eraill.

- **Cynnwys ac Ymagwedd Adolygiad Cyntaf y CGRh**
  [*Cwestiynau i'w Trafod /Goblygiadau Amserlen*]

Cyfeiriodd GW at yr adroddiad a ddosbarthwyd ynghylch Cynnwys ac Ymagwedd Adolygiad Cyntaf y CGRh. Nodwyd i'r adroddiad gael ei baratoi ar ran y tair rhanbarth a chael ei lunio ar ôl trafodaethau ar lefel Cymru gyfan.

Cyn trafod pob un o'r cwestiynau allweddol yn yr Adroddiad Crynhoi, tynnodd GW sylw'r grŵp at eiriad y 'Weledigaeth' a sbardunodd drafodaeth ynghylch 'Beth ddylai Adolygiad Cyntaf y CGRh geisio'i gyflawni. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r ffordd yr ymdrinnir â'r elfen ofodol yn allweddol i'r Adolygiad Cyntaf;

- Mae angen bod yn glir am yr hyn bydd y rhanbarth yn ei gynllunio a'r hyn mae'r Grŵp am ei gyflawni;
- Nid yw cynnydd Ymchwil Fapio GIS wedi datblygu mor bell â hynny. Mae angen mireinio'r mapiau cyfansawdd ymhellach er mwyn datblygu 'ardaloedd chwilio';
- Un dull posib o symud ymlaen yw nodi ardaloedd o fewn 'ardaloedd chwilio' 1 a 2;
- Byddai nodi un 'ardal chwilio' ym mhob awdurdod lleol ar draws y rhanbarth yn ddewis amgen;
- Manteision nodi 'ardaloedd chwilio' yw y bydd yn rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr a swyddogion cynllunio lleol;
- Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i gymeradwyo'r cynllun yn wleidyddol.

Nododd CM fod y tri awdurdod cydlynu wedi trafod yn hir yr ymagwedd y gellid ei chymryd i nodi 'ardaloedd chwilio' yn y lle cyntaf ac, yn ail, cynnal ACE ar gyfer y broses, a dulliau posib i'r tair rhanbarth weithio gyda'i gilydd i leihau costau. Nodwyd bod cyfarfod â RPS wedi cael ei drefnu ar gyfer yr wythnos nesaf i drafod ffordd bosib ymlaen. **Gweithredu**: CM i ddosbarthu manylion y cyfarfod.

Cytunwyd hefyd i baratoi papur briffio ar gyfer yr aelodau i amlinellu sut y dylid ymateb i'r broses o ddatblygu'r elfen ofodol. **Gweithredu**: CM.

Codwyd y gofyniad am ACE unwaith eto gan yr awgrymwyd nad oes angen ACE ar y CGRh yn ôl y gyfraith. **Cytunwyd** bod penderfynu a oes angen cynnal ACE yn hollbwysig i'r gwaith o lunio'r Adolygiad Cyntaf. **Gweithredu**: SM i chwilio am farn gyfreithiol pendant ac adrodd yn ôl i'r tri awdurdod cydlynu cyn gynted â phosib.

Cododd GW hefyd yr angen i ddarparu diweddariadau ynglŷn â'r cynnydd wrth lunio 'Dogfen Cychwyn Prosiect' (DCP) Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer y Strategaeth Gwastraff. **Gweithredu**: CM i gysylltu â Martin Hooker.

Yna ymdriniwyd â phob un o'r cwestiynau hyn yn ei dro a nodwyd a **chytunwyd** ar y pwyntiau canlynol:

C1: A yw'r Weledigaeth, y Nodau a'r Amcanion arfaethedig yn ddigonol? A oes modd eu gwella?
Cytunwyd ar y diwygiad canlynol i eiriad y Weledigaeth *"…Er mwyn darparu fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer rheoli gwastraff ac adfer adnoddau mewn modd* ***cynaliadwy*** *yn ne-orllewin Cymru sydd â'r nodau canlynol…"*

Cytunwyd ar y weledigaeth, y nodau a'r amcanion arfaethedig, yn amodol ar ychydig o aileirio.

C2: A yw'r Dewisiadau arfaethedig yn ddigonol? A oes modd eu gwella?
Cytunwyd bod y Dewisiadau arfaethedig yn ddigonol. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch defnyddio'r term 'Llosgfa dorfol'. Gellid defnyddio 'Triniaeth Thermol Arall' yn ei le. **Gweithredu**: CM i drafod aileirio posib â'r Awdurdodau Arweiniol eraill.

Paragraff 5 (pwynt bwled cyntaf): **Cytunwyd** bod angen i Fforwm yr Aelodau gymeradwyo'r penderfyniad i fabwysiadu'r ymagwedd 'Gwneud Mwy' fel man cychwyn yr adolygiad (h.y. peidio ag ystyried y Dewisiadau nad ydynt yn cyflawni targed Cyfarwydd Tirlenwi BMW 2020 erbyn 2013). Hefyd nodwyd bod angen cyfeirio at y cafeat yn y CGRh *"…y disgwylir diddymu dyraniadau CDU yn raddol a chynnwys, fel isafswm, y targedau statudol ar gyfer 2013, er mwyn lleihau unrhyw falltod a allai ddigwydd fel arall o ganlyniad i or-ddyrannu tir i fodloni'r targedau uchelgeisiol..."* **Gweithredu**: CM.

C3: A oes angen Dewis 'Gwneud Dim Byd' ar gyfer yr adolygiad hwn?
Cytunwyd bod angen Dewis 'Gwneud Dim Byd'.

C4: Ydy'r lefelau gofynnol o ailgylchu a chompostio ('uchel' neu 'uchafswm') wedi cael eu nodi'n

gywir ar gyfer Dewisiadau arfaethedig 1-4?
Cytunwyd bod y lefelau gofynnol o ailgylchu a chompostio wedi cael eu nodi'n gywir.

C5: A yw blwyddyn asesu arfaethedig 2013 yn addas? Am ba resymau y dylai/gallai fod yn wahanol?
Cytunwyd bod blwyddyn asesu arfaethedig 2013 yn addas.

C6: Ydy'n ddymunol i'r CGRh wedi'i adolygu gynnwys rhestr o safleoedd cyflogaeth addas sydd naill ai wedi cael eu dyrannu neu fod wedi derbyn caniatâd cynllunio?
Cytunwyd y dylai'r CGRh gynnwys rhestr o safleoedd cyflogaeth addas sydd naill ai wedi cael eu dyrannu neu fod wedi derbyn caniatâd cynllunio.

C7a: A yw ymrwymiad LlCC i'r UE y bydd Cymru gyfan wedi mabwysiadu CDU neu CDLl erbyn 2010 yn realistig?
Mynegodd swyddogion ansicrwydd y bydd CDU neu CDLl wedi cael ei fabwysiadu'n gyfan gwbl erbyn 2010. O ystyried bod dyddiad cau yr ACE bron â chyrraedd, mae'n bosib na fydd rhai awdurdodau'n parhau i fabwysiadu eu CDU yn ffurfiol.

C7b-7d: Mae'r rhain i gyd yn cyfeirio at y broses o nodi 'ardaloedd chwilio'. Cyn trafod y cwestiynau hyn, **cytunodd** y Grŵp i aros am ganlyniad y cyfarfod gyda'r SCRh.

C8: A yw'n ddymunol i'r CGRh a adolygwyd ystyried goblygiadau'r system 'datblygiad a ganiateir' ar gyfer yr amrywiaeth o gyfleusterau y gofynnir amdano gan y Strategaeth Gwastraff Ranbarthol?
Cytunwyd y dylai'r CGRh ystyried goblygiad 'hawliau datblygiad a ganiateir'.

C9a-C16: Mae'r rhain i gyd yn cyfeirio at yr ACE. Cyn trafod y cwestiynau hyn, **cytunodd** y Grŵp i aros am farn gyfreithiol derfynol LlCC o ran a oes angen ACE ar gyfer yr adolygiad cyntaf ai peidio.

C17: A yw'r amcanion a'r dangosyddion arfaethedig ar gyfer yr Asesiad Cynaladwyedd o'r Dewisiadau'n ddigonol?
Cytunodd bod yr amcanion a'r dangosyddion arfaethedig yn ddigonol.

C18: A gytunwyd bod y dulliau arfarnu'n parhau i fod y rhai mwyaf addas ac y dylid eu defnyddio fel y dulliau arfarnu ar gyfer Adolygiad y CGRh o ganlyniad i hynny?
Cytunodd bod y dulliau arfarnu'n parhau i fod y rhai mwyaf addas.

C19: A gytunwyd y dylid cyflogi ymgynghorwyr i gynnal Asesiad Effaith ar Iechyd ar gyfer Adolygiad y CGRh?
Cytunwyd y dylid cyflogi ymgynghorwyr i gynnal yr AEI. Nodwyd ei fod yn debygol y caiff ei weithredu ar lefel Cymru gyfan.

C20: A yw'r 'Strategaeth Ymgynghori Fersiwn 1' arfaethedig yn ddigonol? A oes modd ei gwella?
Cytunwyd ar y Strategaeth Ymgynghori arfaethedig.

C21: A gytunwyd y dylid cyflogi ymgynghorwyr ymchwil i gynnal arolwg ystadegol wedi'i strwythuro ar gyfer yr ymarfer ymgynghori yn Adolygiad cyntaf y CGRh drafft a'r Adroddiad Amgylcheddol ACE?
Cytunwyd y dylid cyflogi ymgynghorwyr ymchwil i gynnal arolwg ystadegol wedi'i strwythuro.

C 22: A oes modd gwella'r amserlen arfaethedig?
Nododd GW fod dwy agwedd o'r gwaith a allai rwystro ymdrechion i gwblhau'r prosiect erbyn Mawrth 2007 – sef nodi a chynnal ACE o'r 'Ardaloedd Chwilio' a gwaith yr Asesiad Cylch Bywyd os nad yw meddalwedd WRATE yr AA ar gael mewn pryd.

Nododd MW y dylai'r meddalwedd fod ar gael erbyn mis Ebrill, yn dilyn Adolygiad Cyfoedion a gynhelir ym mis Mawrth.

Nododd CM fod cyfarfod Cymru gyfan wedi cael ei drefnu ar gyfer 7 Chwefror i drafod posibilrwydd y bydd yr amserlen yn gor-redeg – awgrymwyd ychwanegu estyniad chwe mis at y contract presennol fel ffordd o symud ymlaen. **Cytunwyd** i aros am ganlyniad y cyfarfod Cymru gyfan cyn cytuno ar amserlen.

5. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cytunwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf am 10.30 fore Mercher, 8 Mawrth.

6. **Unrhyw Fater Arall**

Cyfeiriodd CM at y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Fforwm Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru (FfERhDC) yn gofyn a fyddai gan rywun ddiddordeb mewn sefydlu rhyw fath o berthynas ffurfiol. Cytunwyd y dylid gwneud pob ymdrech i sefydlu cysylltiad rhwng gwaith y grwpiau. **Gweithredu**: CM.

Nododd SM y bydd deddfwriaeth ynglŷn â 'Ffioedd Cynllunio Monitro' yn dod i rym ar 1 Ebrill 2006. Bydd y ddeddfwriaeth yn galluogi awdurdodau lleol i hawlio ffi am y gwaith arferol o fonitro caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd tirlenwi a mwynau.

Nododd AJ y darperir cyfleodd hyfforddi mewn 'technolegau gwastraff newydd' ar gyfer swyddogion ac aelodau yn y gwanwyn / yr haf. ENVIROS fydd yn cynnal y seminarau. **Gweithredu**: AJ i roi dyddiadau'r seminarau i'r tri Awdurdod Cydlynu.